

Papur Dull

Sut mae CNC yn bwriadu gweithredu'r pwerau coedwigaeth arfaethedig o dan Ddeddf Coedwigaeth ddiwygiedig 1967

Rôl CNC fel rheoleiddiwr

Ein rôl mewn rheoleiddio a pham ei bod yn bwysig

Mae ein rôl reoliadol wedi'i sefydlu drwy gymysgedd o ddeddfwriaethau a pholisïau sy'n pennu'r mathau o weithgareddau rydym yn eu rheoleiddio, ac sy'n ei gwneud yn ofynnol i ni gyflawni dyletswyddau penodol fel rhoi trwyddedau, gwirio cydymffurfedd a chyflawni gwaith monitro. Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn ei gwneud yn ofynnol i ni weithio mewn ffordd sy'n deall ac yn gwerthfawrogi'r amgylchedd naturiol yn well, sy'n fwy cydgysylltiedig ac sy'n fwy rhagweithiol.

Rydym yn gyfrifol am fwy na 40 o wahanol fathau o gyfundrefnau rheoleiddio ar draws ystod eang o weithgareddau, gan gynnwys y gyfundrefn Trwyddedu Cwmpo Coed. Rydym yn helpu i lywio a chyflenwi dulliau rheoliadol neu ymyriadau ledled Cymru, er mwyn hyrwyddo ymddygiad cyfrifol a, lle bo angen, mynd i'r afael â gweithgarwch anghyfreithlon. Mae rheoleiddio'n ymwneud â'r gyfraith, ond mae hefyd yn cynnwys mathau ehangach o lawer o ymyrryd, gan gynnwys offerynnau economaidd a gwirfoddol, neu rannu cyngor ac arweiniad.

Rydym yn mabwysiadu dull sy'n seiliedig ar risg mewn perthynas â'r gweithgareddau rydym yn eu rheoleiddio ac ni fydd hyn yn wahanol yn achos y pwerau newydd arfaethedig. Mae rheoleiddio yn bwysig gan ei fod yn ei gwneud yn bosibl i weithgareddau fynd rhagddynt mewn ffordd gynaliadwy.

Cod Rheoleiddwyr ac egwyddorion rheoleiddio

Er mwyn sicrhau ymddygiadau priodol, rydym yn cadw at y Cod Rheoleiddwyr, a ddatblygwyd gan lywodraeth y DU yn 2014, ac sy'n dal i gael ei gynnal yng Nghymru. Mae'r pwyntiau allweddol o'r cod hwn yn cynnwys y canlynol:

1. Dylai rheoleiddwyr gyflawni eu gweithgareddau mewn ffordd sy'n cefnogi'r rheini y maent yn eu rheoleiddio i gydymffurfio a thyfu.
2. Dylai rheoleiddwyr ddarparu ffyrdd syml a hwylus o ymgysylltu â'r rheini y maent yn eu rheoleiddio a chlywed eu barn
3. Dylai rheoleiddwyr seilio'u gweithgareddau rheoleiddio ar risg
4. Dylai rheoleiddwyr rannu gwybodaeth am gydymffurfedd a risg
5. Dylai rheoleiddwyr sicrhau bod gwybodaeth, arweiniad a chynngor clir ar gael i helpu'r rheini y maent yn eu rheoleiddio i gyflawni eu cyfrifoldebau i gydymffurfio
6. Dylai rheoleiddwyr sicrhau bod eu hymagwedd tuag at eu gweithgareddau rheoleiddio yn dryloyw

Yn ogystal â'r Cod Rheoleiddwyr, rydym wedi datblygu [safonau ein Gwasanaeth Rheoleiddio](#) sy'n disgrifio'r hyn y gall cwsmeriaid ei ddisgwyl gennym a hefyd cyfres o [Egwyddorion Rheoleiddio](#). Rydym yn defnyddio ein hegwyddorion rheoleiddio i lywio ein dull rheoliadol o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy ac o gyflawni canlyniadau llesiant. Mae rheoleiddio yn ymwneud â gwneud rhywbeth— 'ymyriad' clir sy'n gwneud gwahaniaeth. Wrth gyflawni hyn, rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i gymhwyso'r Egwyddorion Rheoleiddio, ac i'n hymrwymadau o dan y Cod Rheoleiddwyr.

Y pwerau

Mae Bil Amaethyddiaeth Cymru 2022 yn cynnwys darpariaeth goedwigaeth i:

- Ddiwygio Deddf Coedwigaeth bresennol 1967 (fel y'i diwygiwyd) i'w gwneud yn bosibl cymhwyso amodau amgylcheddol i drwyddedau cwmpo coed
- Caniatáu i drwyddedau gael eu diwygio, eu hatal, a'u dirymu ar ôl cael eu rhoi.

Diben y pwerau newydd yw lleihau'r risg o roi trwydded cwmpo coed a fyddai'n cael effaith negyddol ar yr amgylchedd neu'n tansellio deddfwriaeth amgylcheddol arall. Effaith hyn, yn bennaf, yw diogelu cynefinoedd a rhywogaethau ac amddiffyn rhag niwed amgylcheddol. Wrth gymhwyso'r amodau hyn, byddwn yn cymhwyso ei ddyletswydd, o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, i ymyrraedd at reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy a chymhwyso egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Byddwn yn gwneud hyn drwy sicrhau y gall coedwigoedd a choetiroedd barhau i ddarparu ystod o fanteision gan gynnwys cynhyrchu pren.

Ar hyn o bryd:

- mae Deddf Coedwigaeth 1967 ond yn caniatáu i ni gymhwyso amodau trwydded sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddeiliad y drwydded ailblannu ardal lle rhoddwyd caniatâd i gwmpo coed a chynnal y coed hynny a ailblannwyd. Nid yw'n caniatáu i ni gymhwyso amodau trwydded ar gyfer unrhyw ddibenion eraill megis lleihau'r effaith y byddai cwmpo coed yn ei chael ar yr amgylchedd e.e., sicrhau cyfanrwydd safleoedd gwarchoddedig, rhywogaethau a warchodir, neu elfennau sensitif eraill o'r amgylchedd.
- nid oes gan Ddeddf Coedwigaeth 1967 unrhyw ddarpariaeth sy'n rhoi'r pŵer i ni ddiwygio, atal neu ddirymu trwydded cwmpo coed, boed hynny oherwydd bod amcanion rheoli wedi newid, yng ngoleuni tystiolaeth newydd neu mewn cysylltiad â niwed amgylcheddol drwy weithrediadau coedwigaeth sy'n ymwneud â'r drwydded cwmpo coed.

Bydd y pwerau hyn yn cael eu defnyddio ar gyfer trwyddedau cwmpo coed a roddir *ar ôl* i'r ddarpariaeth hon ddod i rym. Ni fydd y gofynion yn cael eu cymhwyso'n ôl-weithredol.

Sut y byddwn yn ymdrin â'r pwerau arfaethedig

Rydym yn cydnabod y pwysigrwydd o sicrhau bod ein hymagwedd yn gywir. Yn ogystal ag ystyried amodau ac arferion gorau o gyfundrefnau eraill, rydym am ymgysylltu â chwsmeriaid a rhanddeiliaid yn ystod y cyfnod datblygu hwn i helpu i lywio a gwirio ein syniadau.

Defnyddiodd Llywodraeth Cymru grŵp rhanddeiliaid i ddatblygu'r Dadansoddiad Cost a Budd i gefnogi darpariaethau coedwigaeth Bil Amaethyddiaeth (Cymru). Byddwn yn gweithio gyda'r grŵp hwn o leiaf er mwyn sicrhau bod ein harweiniad allanol yn cael ei ddatblygu mewn ffordd gydweithredol.

Rydym yn ymwybodol o'r grŵp rhanddeiliaid bod y pryderon canlynol wedi'u lleisio:

- Bydd amodau'n achosi oedi wrth brosesu trwyddedau
- Dim digon o arweiniad
- Gormod o arweiniad
- Anghysondeb yn yr ymagwedd ar draws timau yn CNC
- Costau ychwanegol i ymgeiswyr

Byddwn yn ymdrechu i fynd i'r afael â'r pryderon hyn wrth i ni ddatblygu'r canllawiau er mwyn sicrhau bod strwythur clir sy'n nodi sut y bydd y pwerau newydd yn berthnasol i drwyddedau cwmpo coed ledled Cymru.

Byddwn yn darparu arweiniad clir i ymgeiswyr ar ein gwefan er mwyn darparu dealltwriaeth o sut a phryd y bydd y pwerau arfaethedig yn cael eu defnyddio ac er mwyn cefnogi ymgeiswyr i baratoi unrhyw ddogfennau y gallai fod angen iddynt ei darparu gyda'u cais am drwydded.

Byddwn yn llunio canllawiau mewnol ar gyfer yr holl staff perthnasol i sicrhau bod y pwerau arfaethedig newydd yn cael eu defnyddio'n gyson, yn briodol ac mewn modd cymesur.

Bydd y ddwy set o ganllawiau yn ymwneud â'i gilydd er mwyn sicrhau tryloywder a dull cyson o weithredu'r pwerau newydd arfaethedig.

Byddwn yn datblygu ac yn darparu hyfforddiant ar y pwerau newydd arfaethedig ar gyfer staff mewnol a, lle bo angen, ar gyfer ymgeiswyr a rhanddeiliaid hefyd.

Byddwn yn datblygu cynllun cyfathrebu i nodi a rhannu ei gynnydd â rhanddeiliaid.

Byddwn yn datblygu amserlen i roi blaenrybudd i rhanddeiliaid ar gyfer ymgysylltu. Bydd yr ymarfer ymgysylltu yn ceisio deall p'un a yw'r hyn sy'n cael ei ddatblygu, e.e. cyfres o amodau, yn ymarferol mewn gwirionedd.

Mae ystod o ffyrdd y gellir cynnal y gwaith ymgysylltu hwn, a chaiff hyn ei gadarnhau ynghyd â'r amserlen.

Byddwn yn cymhwyso'r pwerau hyn pan fo angen clir i wneud hynny am resymau amgylcheddol, gan sicrhau bod eu defnydd yn rhesymol, yn gymesur ac yn gyfiawn, ac yn unol â'n dyletswyddau statudol.

Ar sail ein gwybodaeth gyfredol, rydym yn cynnig mabwysiadu'r dull canlynol o ddefnyddio'r pwerau newydd arfaethedig:

Amodau amgylcheddol

Byddai'r rhan fwyaf o drwyddedau cwmpo coed yn elwa o gael amodau cyffredinol neu waelodlin er mwyn amddiffyn yr amgylchedd ehangach, er enghraifft atal llygredd. Efallai y bydd angen amodau ychwanegol ar rai trwyddedau cwmpo coed hefyd, er enghraifft os oes derbynyddion sensitif gerllaw. Mae eisoes yn ofynnol i'r sector coedwigaeth gydymffurfio â deddfwriaeth amgylcheddol, ond bydd hyn yn ffurfioli cydymffurfedd o fewn y gyfundrefn trwyddedau cwmpo coed ac yn mynd i'r afael ag unrhyw anghysondeb yn y ddeddfwriaeth sy'n bodoli ar hyn o bryd.

Nid oes gan lawer o'n hymgeiswyr gefndir proffesiynol ym maes coedwigaeth ac felly bydd ychwanegu amodau yn sicrhau bod y safonau sy'n ofynnol i amddiffyn yr amgylchedd yn unol â'r gyfraith yn fwy gweladwy. Ni ddylai ychwanegu amodau o'r fath ychwanegu unrhyw faich ychwanegol lle mae deiliaid trwydded eisoes yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol ac yn cadw at Safon Coedwigaeth y DU (UKFS). Fodd bynnag, bydd defnyddio amodau amgylcheddol yn rhoi sicrwydd bod gweithgareddau gweithredol sy'n digwydd, unwaith y rhoddir trwydded, yn cael eu cyflawni mewn ffordd sy'n cyd-fynd â deddfwriaeth amgylcheddol arall.

Cymhwyso amodau i drwyddedau cwmpo coed

Byddwn yn datblygu dull gweithredu, sy'n seiliedig i ddechrau ar dair lefel neu 'haen' o amodau, er y gallai hyn newid wrth i'n gwaith ddatblygu. Bydd yr amodau sy'n ymwneud â phob haen yn dibynnu ar sensitifrwydd a'r risg bosibl o niwed amgylcheddol.

Drwy ddatblygu model haenog ar gyfer amodau, gallwn sicrhau bod yr amddiffyniadau a'r gofynion sydd eu hangen yn gyson ac yn gymesur â sensitifrwydd gweithrediad, eu bod yn glir i'w deall, a bod modd eu gorfodi. Bydd hefyd yn fodel cyflawni effeithlon i ni, oherwydd y gall llawer o'r gwaith ddigwydd yn ystod cam sefydlu'r system. Bydd hefyd yn gwneud y defnydd o amodau yn fwy tryloyw i ymgeiswyr a rhanddeiliaid.

Wrth ddatblygu'r haenau a chymhwyso'r amodau, byddwn yn ystyried p'un a yw amod

- yn angenrheidiol
- yn berthnasol
- yn gallu cael ei orfodi
- yn dra-chywir
- yn rhesymol ym mhob ffordd arall.

Byddwn yn datblygu cronfa o amodau a fydd yn ffurfio'r amodau sylfaenol ar gyfer trwyddedau cwmpo coed ac amodau safonol pellach a all fod yn addas ar gyfer mathau cyffredin o sensitifrwydd.

Ar brydiau, pan fo mathau mwy cymhleth o sensitifrwydd yn effeithio ar gais am drwydded cwmpo coed, disgwylir y bydd angen ysgrifennu amodau mwy pwrpasol.

Caiff yr haenau eu datblygu drwy ddeall y mathau o sensitifrwydd amgylcheddol a geir ledled Cymru. Disgwylir y bydd amodau sylfaenol a fydd yn berthnasol i bob trwydded. Gall hyn gynnwys, er enghraifft, rhoi gwybod i ni am ddigwyddiad amgylcheddol.

Bydd yr amodau sylfaenol hyn yn amddiffyn nifer o fathau o sensitifrwydd. Fodd bynnag, pan fo'r mathau o sensitifrwydd i'w hasesu y tu allan i'w cwmpas, caiff pellteroedd sgrinio safonol ar gyfer y mathau o sensitifrwydd hyn eu hystyried. Defnyddir yr wybodaeth hon i ddatblygu setiau o amodau mewn haen arall, i'w defnyddio mewn amgylchiadau cymharol gyffredin. Gallai enghraifft o hyn fod pan fo'r sensitifrwydd yn gwrs dŵr a bydd y gwaith sgrinio'n ystyried pa mor agos yw'r gweithrediadau i'r cwrs dŵr hwnnw, yn ogystal â thopograffeg leol ac a oes llwybr posibl. Pan nad oes unrhyw fathau o sensitifrwydd yn bresennol, ni fydd angen amodau arnynt a dim ond amodau perthnasol a fydd yn cael eu cymhwyso. Byddwn yn archwilio'r defnydd o bellteroedd sgrinio i'n galluogi i ganolbwyntio ar fathau o sensitifrwydd gwirioneddol ac amcangyfrif y bydd amodau ar y lefel hon yn berthnasol i tua 31% o drwyddedau cwmpo coed.

Byddai mwyafrif y trwyddedau'n cael eu cymeradwyo gydag amodau sylfaenol yn unig neu gydag amodau penodol sy'n seiliedig ar sensitifrwydd. Bydd yr amodau hyn yn cael eu pennu mewn cronfa o amodau fel rhan o'r gwaith datblygu canllawiau hwn.

Pan fo gan gynnig trwydded cwmpo coed sawl math o sensitifrwydd neu fathau mwy cymhleth o sensitifrwydd, disgwylir y bydd amodau pwrpasol yn cael eu datblygu fesul achos. Disgwylir i'r amodau pwrpasol hyn fod yn ofynnol mewn nifer isel yn unig o drwyddedau cwmpo coed, yr amcangyfrifir eu bod tua 4% o'r trwyddedau cwmpo coed.

Bydd ein canllawiau'n nodi maint a ffynhonnell yr wybodaeth ategol briodol i'w chyflwyno gyda cheisiadau am drwydded cwmpo coed. Bydd y deunydd ategol y gofynnir amdano yn gymesur ac yn angenrheidiol ar gyfer y broses gymeradwyo.

Mae amodau eto i'w datblygu yn unol â'r geiriad cyfreithiol angenrheidiol. Fodd bynnag, ceir enghreifftiau o'r math o amodau a sut y gall yr haenau weithio yn Atodiad 1.

Pwerau i ddiwygio/atal neu ddirymu trwyddedau

Mae'r pwerau hyn yn berthnasol o dan yr amgylchiadau a ganlyn:

- Diwygio trwydded cwmpo coed drwy gytundeb ar y cyd rhyngom ni a deiliad y drwydded cwmpo coed
- Diwygio, atal, neu ddirymu trwydded cwmpo coed ar ôl torri amod yn y drwydded cwmpo coed
- Diwygio, atal, neu ddirymu trwydded cwmpo coed pan nad oes tor amod, ond pan fo niwed amgylcheddol sylweddol yn cael ei achosi neu'n debygol o gael ei achosi.

Bydd y defnydd o bwerau i ddiwygio trwyddedau cwmpo coed lle ceir cytundeb ar y cyd yn amrywio yn ôl yr angen, naill ai gennym ni neu ddeiliad y drwydded. Ystyrir bod atal, neu yn y pen draw dirymu trwydded cwmpo coed yn ganlyniad eithriadol. Am y rheswm hwn, dim ond o dan rai amgylchiadau penodol y mae'r pwerau hyn i'w defnyddio pan na fyddai diwygio'r drwydded cwmpo coed yn mynd i'r afael â'r mater neu pan na all y partiön gytuno arno. Ym mhob achos, yn unol â'n hegwyddorion rheoleiddio, byddwn yn gweithio gyda deiliaid trwyddedau cwmpo coed i gytuno ar fesurau lliniaru drwy ddiwygio cyn ystyried atal neu ddirymu.

Diwygio drwy gytundeb

Mae'r Bil Amaethyddiaeth yn cynnwys diwygiad arfaethedig i'n galluogi ni a deiliad y drwydded i gytuno i ddiwygio'r drwydded cwmpo coed ar unrhyw adeg.

Dylai'r gallu i ddiwygio trwydded cwmpo coed drwy gytundeb ar y cyd â deiliad y drwydded helpu i fynd i'r afael â'r canlynol:

- newidiadau mewn amcanion e.e., pan fo tir wedi newid dwylo

Dyma enghreifftiau o'r hyn y gellir ei ddiwygio o dan y cynnig newydd hwn:

- newidiadau i ardaloedd cwmpo coed,
- newidiadau i niferoedd coed,
- amodau ychwanegol neu wahanol

Wrth ddatblygu canllawiau, byddwn yn ystyried ac yn nodi o dan ba amgylchiadau y gallwn ganiatáu neu wrthod cais am ddiwygiad. Byddwn yn ystyried sut y gofynnir am ddiwygiadau a'u gweinyddu. Manylir ar hyn yn ein canllawiau ar gyfer timau mewnol ac ymgeiswyr.

Diwygio, atal, neu ddirymu trwydded cwmpo coed ar ôl torri amodau

Mae'r Bil Amaethyddiaeth yn cynnwys diwygiadau arfaethedig i'n galluogi i ddiwygio, atal neu ddirymu trwydded cwmpo coed pan:

- Na chydymffurfiwyd ag unrhyw amod o'r drwydded
- Na chydymffurfir ag unrhyw amod o'r drwydded

Enghraifft bosibl o hyn yw pan fo gweithrediadau cynaeafu yn achosi llygredd i gwrs dŵr pan oedd amod yn nodi bod angen cael cynllun rheoli dŵr, a'i weithredu, er mwyn atal llygredd, na chydymffurfiwyd ag ef.

Os nodir bod toriad wedi digwydd, byddwn yn cyflwyno hysbysiad i ddeiliad y drwydded cwmpo coed a/neu i berchennog y tir. Bydd yr hysbysiad yn nodi p'un a yw un neu ragor o'r canlynol yn berthnasol:

- Amrywiad neu ddileu amod o'r drwydded cwmpo coed, neu osod amod newydd
- Atal y drwydded cwmpo coed, naill ai'n llawn neu'n rhannol
- Os oes angen, ac yn amodol ar yr amgylchiadau a nodir yn y ddeddfwriaeth, ddirymu'r drwydded

Diwygio, atal, neu ddirymu trwydded cwmpo coed pan na thorwyd unrhyw amod

Mae'r Bil Amaethyddiaeth yn cynnwys diwygiadau arfaethedig i'n galluogi i ddiwygio, atal neu ddirymu trwydded cwmpo coed yn unochrog os ydym yn ystyried bod gweithgaredd cwmpo coed sy'n unol â'r drwydded yn achosi neu'n debygol o achosi niwed sylweddol i:

- Harddwch naturiol, neu
- Fflora, ffawna a nodweddion daearegol neu ffisiograffigol.

Gallai enghraifft o hyn gynnwys achos pan fo rhywogaeth warchoddedig fel aderyn Atodlen 1, yn dewis nythu yn yr ardal cwmpo coed yn ystod cyfnod y drwydded cwmpo coed. Mae'n bosibl y bydd hyn yn gofyn am amod sy'n nodi amserau cwmpo coed o fewn parthau gwaharddedig.

Byddwn yn diwygio'r drwydded cwmpo coed drwy gytundeb â deiliad y drwydded. Pan nad yw hyn yn bosibl, byddwn yn cyflwyno hysbysiad i ddeiliad y drwydded cwmpo coed a/neu i berchennog y tir. Bydd yr hysbysiad yn nodi a yw un neu ragor o'r canlynol yn berthnasol:

- Diwygio'r drwydded cwmpo coed
- Atal y drwydded cwmpo coed, naill ai'n llawn neu'n rhannol
- Dirymu'r drwydded os na fydd diwygio neu atal yn atal y niwed sy'n cael ei achosi neu'n debygol o gael ei achosi

Cyflwyno hysbysiadau

Wrth roi hysbysiad i'r ymgeisydd neu i berchennog y tir, gan ddibynnu ar yr hysbysiad penodol ac yn unol â'r gofynion deddfwriaethol, byddwn yn:

- nodi'r rheswm dros gyflwyno'r hysbysiad
- ei gwneud yn ofynnol i'r unigolyn cyfrifol gymryd camau sy'n rhesymol a chymesur i unioni'r methiant i gydymffurfio â'r amod, neu'n diwygio'r drwydded cwmpo coed i fynd i'r afael â'r niwed amgylcheddol annisgwyl
- pennu'r cyfnod y mae'n rhaid cyflawni'r camau hynny
- atal y drwydded os oes angen (yn llawn neu'n rhannol) am gyfnod o amser neu hyd nes y bydd unrhyw gamau i unioni'r methiant i gydymffurfio â'r amod wedi'u cymryd
- nodi'r dyddiad y daw'r amrywiad i amodau, yr ataliad neu'r dirymiad i rym
- nodi, pan fyddwn yn atal y drwydded yn rhannol, pa elfennau o'r gwaith cwmpo coed trwyddedig a all barhau
- dirymu'r drwydded pan na fyddai ei diwygio yn mynd i'r afael â'r mater, pan na ellir dod i gytundeb, neu pan nad oes opsiynau eraill ar gael
- rhoi manylion ynghylch sut i apelio.

Diwygio, atal neu ddirymu – cyffredinol

Diwygio

Bwriedir ymdrin â'r mwyafrif o achosion drwy ddiwygio'r drwydded drwy gytundeb ar y cyd neu drwy gyflwyno hysbysiadau fel yr amlinellir uchod. Felly dim ond pan na fyddai diwygio amodau neu'r drwydded cwmpo coed yn mynd i'r afael â'r mater y bydd y pwerau atal neu ddirymu arfaethedig yn cael eu defnyddio. Dim ond pan fetho popeth arall y byddai dirymu trwydded yn cael ei ddefnyddio.

Atal

Bydd yr amserlenni ar gyfer atal trwydded yn cael eu pennu fesul achos. Er enghraifft, gall yr amserlenni gael eu pennu gan dymhorau nythu anifeiliaid. Efallai y bydd amgylchiadau pan mai dim ond rhan o ardal trwydded cwmpo coed y mae angen ei hatal, a bydd hynny'n cael ei nodi yn yr hysbysiad.

Ateb dros dro fydd atal, a bydd yr amserlenni ar gyfer y cyfnod atal yn dibynnu ar sefyllfa'r achos ac unrhyw gamau adferol sydd eu hangen. Pan fo deiliad trwydded yn cydymffurfio â'r camau a/neu'r amodau a nodir mewn hysbysiad, efallai y byddwn yn ystyried dirwyn yr ataliad i ben yn gynharach, gan ddibynnu ar amgylchiadau'r achos.
Ni fyddai methu â chydymffurfio â hysbysiad atal yn arwain yn awtomatig at ddirymu'r drwydded cwmpo coed.

Dirymu

Os nad yw deiliad trwydded cwmpo coed yn gallu darparu cynllun clir ar gyfer mynd i'r afael â gofynion yr hysbysiad diwygio neu atal a/neu os oes risg barhaus o achosi niwed sylweddol i'r amgylchedd, e.e. llygredd, neu os oes achosion parhaus o dorri amodau'r drwydded, gall fod yn briodol cyflwyno hysbysiad dirymu.

Gall dirymu hefyd fod yn briodol pan fo'n pwerau arfaethedig i ddiwygio neu atal trwydded cwmpo coed yn annigonol i ymdrin â'r niwed amgylcheddol sy'n cael ei achosi neu'n debygol o gael ei achosi gan y gweithgaredd.

Byddwn bob amser yn ymgynghori â'n tîm cyfreithiol cyn cyflwyno hysbysiad atal neu ddirymu oni bai bod hynny'n amhosibl oherwydd natur frys y sefyllfa.

Byddwn yn nodi sut y bydd diwygio, atal a dirymu yn cael eu rheoli mewn perthynas â thorri amodau neu mewn achosion pan fo niwed amgylcheddol sylweddol wedi digwydd neu'n debygol o ddigwydd er gwaethaf y ffaith na thorwyd amodau. Manylir ar hyn yn ein canllawiau mewnol ac allanol a ddatblygir yn ystod y misoedd nesaf.

Cerrig milltir / terfynau amser

Rhagwelir y bydd gwaith i ddatblygu'r dull gweithredu cyffredinol yn cymryd tua 12 mis.

Drwy ddechrau'r gwaith hwn yn 2022, yn amodol ar adnoddau, rydym yn gobeithio y bydd y system newydd ar waith erbyn diwedd 2023.

Byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid ac yn rhannu dyddiadau disgwylidig ar gyfer cyfnodau ymgysylltu, cymeradwyo a chyhoeddi dogfennau â staff a rhanddeiliaid. Rydym yn disgwyl bod mewn sefyllfa i allu rhannu amserlenni yn ystod hydref 2022.

Atodiad 1

System haenog o amodau ac *enghreifftiau* o fathau o amodau.

*Sylwer bod angen datblygu amodau gwirioneddol o hyd a gallant newid o'r enghreifftiau hyn. Bydd angen eu hystyried yn ofalus yn unol â'r geiriad cyfreithiol angenrheidiol.

Haen	Cyflwr	Rheswm	Enghraifft o'r math o amod*
1 – Y mwyafrif o drwyddedau	e.e. Atal llygredd	Lleihau'r risg o ddigwyddiadau o lygredd, a sicrhau bod digwyddiadau o'r fath yn cael eu hadrodd yn brydlon, er mwyn galluogi'r Awdurdod Trwyddedu i gymryd camau fel y bo'n briodol.	Enghraifft mewn trwyddedau morol: Atal llygredd – Rhaid i Ddeiliad y Drwydded sicrhau y glynir wrth arferion gorau o ran atal llygredd. Rhaid rhoi gwybod i'r Awdurdod Trwyddedu am unrhyw ddigwyddiadau cyn gynted â phosibl gan ddefnyddio'r llinell gymorth 0300 065 3000.
2 – Amodau cyffredinol ar gyfer themâu cylchol, e.e. nodweddion ACA	e.e. dyfrgwn fel nodwedd ddynodedig o ACA: Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd. Mae'n bosibl y gellid cytuno ar amod cyffredinol ar gyfer y sefyllfa hon	Gofyniad mewn Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd	Enghraifft mewn nodyn cynghori ar gyfer trwydded cwmpo coed cyffredol: Gall teneuo a llwyrwgwmpo niweidio neu ddinistrio gwalau dyfrgwn a mannau gorffwys <u>Cynaeafu</u> Llwyrwgwmpo <ul style="list-style-type: none"> Cyfyngu ar llwyrwgwmpo mewn parthau glannau afonydd i gadw'r gorchudd coetir.

			<ul style="list-style-type: none"> • Cadw pentyrrau malurion a'u gadael heb darfu arnynt. • Osgoi cwympo coed o fewn 30 metr i wâl neu o fewn 100 – 200 metr i safle bridio.
3 – Amodau penodol	E.e. mathau lluosog o sensitifrwydd ar y safle	Llwybrau effaith ar fathau lluosog o sensitifrwydd.	Amodau lluosog yn seiliedig ar fathau lluosog o sensitifrwydd, e.e. osgoi tymor nythu critigol ar gyfer rhywogaethau lluosog